# papur

# priordy



**Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i,**
**heddwch ar ddaear lawr, yr hedd a fwriadwyd i ni;**

**Seymour Miller (1908-71) a Jill Jackson**
**cyf Harri Williams (1913-83)**

**Caneuon Ffydd 867**

***Dewiswyd gan Non Edwards. Gweler y tu mewn am ei rheswm***

**Rhifyn 306**
**PAPUR RHAGFYR 2017**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

# Stori'r Nadolig



***DAETH*** yn amser clywed Stori'r Nadolig unwaith eto. Hen stori, ond un sydd wedi treulio'n dda. Rhyfeddodd sy'n parhau i beri i ni ryfeddu. Duw'n torri i mewn i hanes byd toredig, gan arllwys ei gariad rhyfeddol i bob hollt a'u gwneud, trwy'i gariad, yn gyfan unwaith eto.

Crewyd rhywbeth newydd. Datguddiwyd gwirionedd syfrdanol. Creadigaeth a datguddiad a barodd na fyddai'r byd fyth yr un fath eto.

Gwnaeth Duw benderfyniad tyngedfennol i dorri ar ei dawelwch a rhoi'i hun i'r byd yn Y Gair. Rhoddwyd i'r Gair gnawd yng nghroth merch ifanc. Ganwyd Y Gair mewn baban bach a oedd yn fwndel o egni a bywyd. Roedd holl ddirgelwch Duw wedi'i wasgu rywfodd i mewn i blentyn bach. Roedd hyd a lled, uchder a dyfnder cariad Duw wedi'i amlygu yn yr un baban hwn.

Nid dewis ymweld â'i bobl trwy freuddwydion a geiriau proffwydi a wnaeth Duw, ond mewn cnawd ac esgyrn. Cododd Duw ei babell yn ein plith ni ar y ddaear.

Mae'r stori a glywn adeg y Nadolig bob blwyddyn yn ddigyfnewid, ond rydyn *ni* yn newid. Mae'n byd yn newid. Llawenydd neu dristwch, chwerthin neu ddagrau, iechyd da neu salwch, bywyd neu farwolaeth, rydym oll yn wahanol y Nadolig hwn i'r hyn yr oeddem y Nadolig diwethaf.



Ond pa bethau bynnag sydd wedi newid yn ein bywydau, pa golledion bynnag rydym wedi'u profi, pa lwyddiannau bynnag rydym wedi'u dathlu, mae Stori'r Nadolig, er ei bod yn hen, yn adrodd am enedigaeth newydd.

Mae Stori'r Nadolig yn dweud bod pethau'n gallu bod yn wahanol. Mae'n rhoi i ni obaith bod bywyd yn bosib oherwydd bod Duw wedi dod i'n byd fwy na 2000 mlynedd yn ôl mewn dimensiwn cwbl newydd, sef mewn baban bach.

Mae pob genedigaeth newydd yn brotest yn erbyn agweddau sinicaidd a negyddol nad oes unrhyw beth newydd yn digwydd yn ein byd, ac mai'n tynged yw byw ar gamgymeriadau'r gorffennol.

Mae genedigaeth Iesu'n brotest yn erbyn gadael pethau fel y maent yn y byd. Daeth Iesu i'n byd fel Achubwr. Ef yw'r e-bost o obaith a ddanfonwyd gan Dduw.

Efallai fod Stori'r Nadolig yn hen stori, ond mae'n feichiog o obaith newydd. Mae antur ffydd yn cychwyn o'r newydd gyda'r enedigaeth hon. Llwybr newydd, ffordd newydd a agorwyd gan Dduw ar ein cyfer.



Dyna pam yr awn ar y daith yn ôl i Fethlehem bob blwyddyn, i ailddarganfod ein gwreiddiau yn yr un bach a ddaeth oddi wrth Dduw.

***YMUNWCH*** â ni ar ein taith.

**Gweddïwn**

**Ein Tad nefol,**



**Fel Mair, cyflwynwn ein hewyllys i ti.**

**Fel y bugeiliaid, cyflwynwn ein haddoliad i ti.**

**Fel y doethion, cyflwynwn i ti ein cyfoeth.**

**Fel Joseff, cyflwynwn i ti ein gwaith.**

**Rhodd gennyt ti yw ein bywyd, felly cyflwynwn ein bywyd i ti,**

**Yn enw Iesu.**

**Amen**



**Dymuna**
**Beti-Wyn, Philip. Elin a Sara**
**Nadolig Bendithiol i bawb yn y Priordy**
**a Blwyddyn Newydd Dda**



## BLWYDDYN Y BEIBL BYW
## DARLLENIADAU

| Mis | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Mathew 3: 1-12 |
| Wythnos 2 | Luc 1: 47-55 |
| Wythnos 3 | Mathew 1: 18-25; 18: 1-8 |
| Wythnos 4 | Eseia 9: 2-7 |
| Dydd Nadolig | Luc 2: 1-7 |

## MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN

## PLYGAIN

**NOS SUL - 10 RHAGFYR 2017 - 7.30**
**HEOL AWST, CAERFYRDDIN**

**RHAGLEN: £3**
***Yr elw at Yr Uned Cemotherapi, Adran Oncoleg, Ysbyty Glangwili***

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

# MAIR LEWIS

## LLYS ORLLWYN, HAFOD CWNIN

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**AR GYFER Y DYDDIADUR**

**DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL**

**Y Priordy – 23 Mawrth 2018**



## RHAGHYSBYSIAD

## NADOLIG YR OFALAETH 2017





**DYDD SUL 10 RHAGFYR 2017**
**Y PRIORDY**
**Prynhawn Sul am 3.30**
**Oedfa Nadolig yr Eglwys gyfan**
***Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn***

**CANA**
**Prynhawn Sul am 1.30**
**Oedfa Nadolig dan ofal yr Ysgol Sul**
***Parti i ddilyn***

**HEOL AWST**
**Nos Sul am 7.30**
**Plygain Merched y Wawr**

**DYDD SUL 17 RHAGFYR 2017**
**CANA**
**Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10**
***Paned i ddilyn***

**BANCYFELIN**
**Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned**
**Gorymdaith drwy'r pentref yn cychwyn am 6**
**ac Oedfa dan olau cannwyll yn y Capel**
**Paned i ddilyn**

**DYDD SUL 24 RHAGFYR 2017**
**Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yn y Priordy am 10 gyda'n Gweinidog**

**BORE NADOLIG**
**Oedfa Undebol i'r teulu cyfan yn Y Priordy am 9 y bore gyda'n Gweinidog a'r Bobl Ifainc**

**DYDD SUL 31 RHAGFYR 2017**
**Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 10 gyda'n Gweinidog**

***Croeso i bawb***

**Mair Baston…**

# NADOLIG FY MHLENTYNDOD



*Ces i fy ngeni yn Y Ddôl yn Nryslwyn ond pan oeddwn yn 5 oed symudais gyda fy rhieni, Nellie ac Emrys Davies, i fferm fach o'r enw Llety Henri yng Nghwrt Henri. Gwartheg godro oedd gyda ni'n bennaf. Ar ôl i ni symud i Lety Henri y daeth fy nau frawd, Dewi ac Edryd. Yr unig un ohonyn nhw sy'n fyw nawr yw Edryd, fy mrawd iau.*



***Siloam, Pontargothi** oedd ein capel ni. Ond adeg y Rhyfel a phris petrol mor ddrud a'r pellter rhwng Siloam a'n cartref ni, symudodd y teulu i **Gapel Cross Inn** gyda'r Methodistiaid. Y Parchedig D J Evans oedd ein Gweinidog yno.*



*Yn ein cartref ni dros y Nadolig byddai bocs mawr yn llawn o afalau ac orennau – ond doeddwn i ddim yn cael cyffwrdd â'r rhain. Roedd fy nhad, chi'n gweld, yn Arolygydd yr Ysgol Sul yng Nghapel Cross Inn a phresantau oedd y rhain ar gyfer plant y capel yn eu parti ar Noson Gŵyl San Steffan. Roedd honno'n noson llawn hwyl a ninnau'r plant yn cynnal cyngerdd bach ac yn derbyn anrhegion. Byddai anrheg arbennig i'r rhai a oedd wedi bod yn yr Ysgol Sul drwy gydol y flwyddyn yn ddi-dor. A wyddoch chi beth, bues i'n ddigon ffodus i ennill un o'r gwobrwyon hyn sawl tro!!*



*Roedd diwrnod Nadolig yn un arbennig iawn. Byddai mam a nhad yn codi'n gynnar iawn. Roedd rhaid godro fel arfer wrth gwrs!*

*Roeddwn innau'n codi'n gynnar ar fore Nadolig hefyd. Dyma pryd y byddwn yn agor fy hosan Nadolig – yn cynnwys afal ac oren a manion bethau eraill!*

*Byddai Siôn Corn wedi bod hefyd a gadael rhai presantau, fel gemau, a dillad.*



*Coeden gelyn oedd gyda ni yn y tŷ a nhad wedi'i chodi o'r caeau ar dir y fferm. Byddem wedyn yn ei haddurno â gwahanol bethau disglair.*



*Roedd yna edrych ymlaen at y Cinio Nadolig. Ffowlyn fydden ni'n ei gael a phob math o lysiau. Byddai'n nhad yn cadw ffowls a dw i'n cofio'n dda adeg eu lladd a'u plufio ar gyfer y Nadolig. Roedd pob ffowlyn wedi'i archebu gan wahanol deuluoedd. Bydden ni'n dodi un mewn bocs a'i lapio'n ofalus a mynd â fe i'r Swyddfa Bost yn Cross Inn i'w anfon at fy modryb yn Llundain. A wyddoch chi beth? Roedd y ffowlyn yn cyrraedd Llundain yn ddiffael y diwrnod wedyn!*

*Roedd mam yn cael hwyl ar baratoi pwdin Nadolig a sawl cacen Nadolig. Byddai merched yn dod atom i helpu ar ddiwrnod plufio a nhw oedd yn cael blasu'r gacen gyntaf i'w thorri!*

*Byddai brys mawr i gwpla'r godro mor gynnar â phosib gyda'r hwyr ar*



*ddiwrnod Nadolig. Pam, meddech chi? Wel, bob nos Nadolig byddai pobl y pentref yn llwyfannu drama yn Ystafelloedd Darllen Cwrt Henri. Roedd hi'n dipyn o achlysur. Fel arfer, roedd y ddrama mewn tair rhan. Byddai'r neuadd yn llawn a ninnau'r plant yn cyrraedd mewn digon o bryd i gael seti yn y ffrynt! Roedd digon o ddigrifwch hefyd! Am hwyl!*

*Wel, mae dyddiau plentyndod wedi hen fynd ond mae'r Nadolig yn parhau i fod yn llawn cyffro a phrysurdeb i mi. Dw i wrthi o hyd yn paratoi bwyd, cacennau a phwdinau Nadolig – diolch i'r sgiliau a ddysgais gan fy mam ym more oes,*



*Mae yna un peth ychwanegol hefyd dw i'n ei wneud nawr ers rhai blynyddoedd, sef paratoi'r Torch Adfent ar gyfer y Priordy a chyda help David, fy mab, yn cael hwyl wrth gasglu'r dail celyn a'r canhwyllau ac ati ar gyfer ei gwneud!*

**TUDALEN BLAEN**
**DEWIS NON EDWARDS**



Daw'r geiriau o emyn 867 yn *Caneuon Ffydd,* cyfieithiad fy nhaid, y **Parchedig Athro Harri Williams (1913-1983)** o emyn Saesneg, *'Let there be peace on earth and let it begin with me',* geiriau Jill Jackson a thôn Seymor Miller,



ei gŵr. Eu dymuniad oedd i'r gân droi'n apêl am heddwch drwy'r byd, a hwnnw'n tarddu o fywyd yr unigolyn. Cyflwynodd y ddau y gân mewn encil i 180 o ieuenctid ac fe'i canwyd am y tro cyntaf ar noson braf o haf ym mynyddoedd Califfornia. Rwy'n falch fod yr emyn wedi cyrraedd Cymru a'n bod yn cael canu geiriau Taid.

Pan fyddwn yn clywed geiriau'r proffwyd Eseia a ddisgrifiodd y Meseia fel *'Tywysog Tangnefedd – Tywysog Heddychlon'*, yn y gwasanaethau Nadolig byddai'n briodol troi at *'Heddwch ar ddaear lawr'* - heddwch yn lle trais a rhyfel.

**CRONFA APÊL PIBAU'R ORGAN**
**RHODD ARBENNIG**



Derbyniwyd rhodd o £1,000 yn ddiweddar at Gronfa Apël Pibau'r Organ er cof am y diweddar Arwyn a Beryl Davies gan y teulu.

Mae atgofion cynnes iawn gennym am Arwyn a Beryl a'u ffyddlondeb a'u gwaith dros yr achos yma yn y Priordy mewn amryw ffyrdd.

Gwerthfawrogwn yn fawr garedigrwydd y teulu. Bydd y rhodd yn gaffaeliad mawr i'r gronfa.

## YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Ysgrifennydd newydd y Cyfamodi yn y Priordy yw'r **Dr Huw Michael**. Bydd yn dechrau ar ei waith ym mis Ionawr 2018. Mae'n dilyn Huw Davies sydd, ynghyd â'i deulu, wedi ymgartrefu yn Llanwrin, Machynlleth, erbyn hyn. Ac wrth ddiolch i Huw am ei waith dros y blynyddoedd dymunwn yn dda i'w olynydd yn y swydd.



Does dim angen pwysleisio'r manteision mawr a ddaw i'n capel drwy barodrwydd aelodau i gyfamodi. Bydd y Dr Huw yn barod iawn i roi rhagor o wybodaeth i unrhyw un am y cynllun. Byddwch yn ei weld, wrth gwrs, yn y capel ond mae modd cysylltu ag e hefyd fel a ganlyn:

**Dr Huw Michael, Tŷ Hir, Llys Picton, Caerfyrddin, SA31 3DQ**
**☎01267 235221**
**e-bost: huwmichael@hotmail.com**

**CASGLIAD OLAF AM Y FLWYDDYN**
**Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU AM ELENI YW**
**10 Rhagfyr 2017**



**CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**GWASANAETH NADOLIG**
***gyda'n Gweinidog***
**Bore Gwener, 15 Rhagfyr 2017 am 11am**
***Croeso cynnes i bawb***

**Gareth Gravell…**
**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
***6 Tachwedd 2017***



***AR NOS LUN*** 6 Tachwedd cynhaliwyd yr ail gyfarfod yng nghalendr Y Gymdeithas Ddiwylliadol yn Festri'r Priordy.

Ar ôl croeso gan ein Gweinidog a darlleniad o Lythyr Cyntaf Paul at y Rhufeiniaid, cyflwynodd Beti-Wyn ein gwestai - gŵr. sy'n adnabyddus am ei waith yn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg



yn y gymuned ac wedi llwyddo i godi proffil yr Iaith yn Sir Gâr. Braf felly oedd rhoi croeso cynnes iawn i fachgen o Lanaman, Cefin Campbell. A gwledd o gyflwyniad oedd yn ein haros.

Dechreuodd Cefin ei anerchiad drwy sôn am y dylanwadau a fu arno o oed ifanc yng Nglanaman a arweiniodd at ennill gradd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ac yna radd uwch.

Bu Capel Bethel, Garnant, yn ddylanwad mawr arno. Roedd bywyd a gwaith y capel yn y gymuned yn sicr yn un o'r elfennau pwysicaf o ran amddiffyn y Gymraeg yn yr ardal. Pan oedd yn ifanc roedd y mwyafrif yn siarad Cymraeg a'r capel yn hyrwyddo'r "pethe". Roedd hyn, wrth gwrs, yn gwbl groes ar y pryd i'r dylanwad yn y pentref, sef y Clwb Cymdeithasol . Yn anffodus, erbyn 2017 mae'n ddigon rhwydd gweld beth sydd fwyaf poblogaidd gyda chwe chapel wedi cau ers dyddiau'i blentyndod. Mae'n rhaid cyfaddef fod yna leihad aruthrol wedi bod o ran y niferoedd sy'n mynychu'r capel a'r un yw'r gân, yn anffodus, mewn sawl cymuned arall yng Nghymru.

Daeth y dylanwad nesaf o ganlyniad i wrando ar recordiau protest Dafydd Iwan ar "gramaffôn" ei fam. Roedd yn awr am wybod beth oedd y storîau'r tu ôl i'r caneuon hyn – pa brotestio oedd wedi bod a pha newid ddaeth i statws yr iaith. Roedd hyn i gyd wedi bod yn amser cyffrous a'r gweithredu a'r protestio gan Gymdeithas yr Iaith wedi bod yn ddylanwad mawr arno. Yn anffodus, yr adeg hynny, Saesneg oedd y prif cyfrwng cyfathrebu yn Ysgol Dyffryn Aman - dim syndod felly fod Cefin yn cael ei ystyried yn rhywfaint o rebel wrth geisio sicrhau tegwch a statws i'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol.

Parhaodd diddordeb Cefin yn y Gymraeg yn ystod cyfnod coleg. Roedd 'mam-gu', er enghraifft yn amheus iawn o werth hyn a hynny, mae'n siŵr, gan nad oedd unrhyw fri i'r iaith o gwbl pan oedd hi yn yr ysgol. Ond roedd Cefin yn benderfynol o barhau i astudio'r Gymraeg a gweithio dros ei dyfodol.

Dylanwad pwysig arall arno oedd cael cyfle i weithio dros dro ym Mhrifysgol Abertawe'n dysgu Cymraeg i oedolion ar gwrs WLPAN un tro yn lle Heini Gruffudd. Cafodd gyfle tebyg ym Mhrifysgol Llambed. Daeth yn gyfeillgar ag Americanwr yno. Roedd y dyn wedi gweld poster yn ei filltir sgwâr enedigol ym Mrooklyn yn Efrog Newydd yn dweud "*Save Whales*" a draw a fo i ddysgu Cymraeg ……yn Llambed! Yna cafodd swydd yn darlithio ym Mhrifysgol Caerdydd a sefydlu ei hun yn y ddinas, yn cynnal Clwb Ieuenctid a dod yn aelod yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

Fodd bynnag, roedd ei galon yn dal yng Ngorllewin Cymru a chyda helyntion y mudiad "*Education First*" yn gwasgu'n drwm arno, penderfynodd ymateb i hysbyseb am swydd fel Cyfarwyddwr Menter Iaith gyntaf Cymru, sef Menter Iaith Cwm Gwendraeth. Cyn hyn, cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd hynod lwyddiannus yn y Cwm a bu'r brwdfrydedd a'r cyffro dros yr Iaith a'i dilynodd yn hwb mawr i sefydlu'r Fenter.

Gweithiodd yn agos iawn gyda Phrif Weithredwr Cyngor Sir Dyfed, yr annwyl D.H Davies a chyn mynd ati i lunio strategaeth am y dyfodol teimlodd ei fod yn bwysig iddo wrando ar ddymuniadau a dyheadau'ry bobl yn y cymunedau. Erbyn hyn mae 22 o Fentrau Iaith wedi'u sefydlu, ledled Cymru'n gwasanaethu trefi a phentrefi er mwyn cynnal y bywyd Cymraeg. Pwysleisiodd Cefin ei bod yn bwysig achub cymunedau cyn achub iaith. Roedd meddwl yn ôl i gyfnod Thatcher yn ei lenwi â thristwch gan gofio'r caledi a fu yn ardal Glanaman gyda'r pyllau glo'n cau a gweithwyr yn ciwio am fwyd. Daeth hi'n amlwg fod angen achub swyddi cyn achub iaith.

Heb yn wybod iddo roedd dylanwad arall cryf arno, sef dylanwad ei dad-cu. Adroddodd Cefin iddo golli'i dad-cu'n 48 oed oherwydd y dolur ofnadwy silicosis wedi blynyddoedd o weithio dan ddaear. Roedd ei dad-cu'n undebwr cryf ac yn credu mewn ymladd am degwch a chyfiawnder i'r gweithwyr ac yn un a oedd yn deall effaith tlodi ar bobl. Yn sicr, gwelwn y duedd hon yn Cefin

a’r cydymdeimlad sydd ganddo at y rhai hynny sy’n dioddef o dlodi ac yn cael eu trin yn annheg yn y gymuned.

Yn 2012 , daeth canlyniadau’r Cyfrifiad oedd yn siom ofnadwy i Cefin ac i bawb oedd yn caru’r iaith. Dangosodd y canlyniadau fod Sir Gâr, un o gadarnleoedd yr iaith, wedi colli 6% o’i siaradwyr Cymraeg. Ag yntau erbyn hyn yn Cynghorydd Sirol, teimlodd fod angen gweithredu ar frys ac yn fuan cafodd ei ddewis yn Gadeirydd Gweithgor Amlbleidiol y Cyngor a gynhyrchodd adroddiad pwysig a dylanwadol iawn, sef *Y Gymraeg yn Sir Gâr*. Arweiniodd at y Cyngor yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer y Gymraeg, yn arbennig ym myd addysg. Erbyn hyn mae Cefin yn aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor gyda chyfrifoldeb am Gymunedau a Materion Gwledig.

Meddyliwch am yr ystadegau hyn - mae 65% o boblogaeth Sir Gâr yn byw mewn mannau gwledig ac mae 58% o’r mwyaf tlawd yn byw mewn mann au gwledig. Felly mae yna angen mawr i gefnogi’r sector wledig. Dywedodd fod ofnau’n awr yn dilyn pleidleisio i adael Y Gymuned Ewropeaidd, sef Bregsit. Er enghraifft mae 90% o incwm ffermwyr yn dod fel cymorthdaliadau o Ewrop! Hefyd, gan nad oes unrhyw sicrwydd am ddêl masnachu mae posibilrwydd y bydd yna daliadau ar allforion ffermwyr Prydain. O gofio bod 80% o’r allforion yn mynd i Ewrop, gallai hynny fod yn argyfyngus. Ar ben hyn dywedodd fod y Sefydliad Astudiaethau Ariannol sef yr *Institute for Fiscal Studies* wedi darogan y bydd tlodi plant yn cynyddu 30%. Felly, dyma rai materion y bydd yn rhaid i’r Cyngor ddelio â nhw fel mater o frys.

***GORFFENNODD*** Cefin ei sgwrs drwy ategu mai un cyfle a gawn i achub yr Iaith. Pe byddai’r iaith yn diflannu fydden ni fyth yn ei gweld eto. Geiriau i ddwysbigo’r cydwybod! Ac felly daeth noson arbennig iawn i ben yng nghwmni person sy’n sicr yn gweld materion cymunedol yn eu cyfanrwydd ac yn deall y problemau sy’n wynebu Sir Gâr. Traddododd ei neges mewn iaith goeth a chyda’i huodledd naturiol gan iddo lwyddodd i gyrraedd pob un o’r gynulleidfa niferus.

**BETH AM DROI AT WEFAN
COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG?**

**colegyrannibynwyr.cymru**

# STAMPIAU CRISTNOGOL I'W CAEL O HYD!




**Eleni mae'r Post Brenhinol yn dathlu'r Ŵyl gyda dwy thema benodol ar gyfer ei Stampiau Nadolig – wyth dyluniad o'r Forwyn Fair a'i Phlentyn a phedwar dyluniad buddugol y Gystadleuaeth i Blant ddylunio stampiau ar y thema *'Beth mae tymor y Nadolig yn ei olygu i chi'?***




**Dim ond tair gwaith yn hanes y Post Brenhinol mae dyluniadau plant wedi cael eu defnyddio ar stampiau Nadolig; 1966, y flwyddyn y cyhoeddwyd stampiau Nadolig am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig, 1981 a 2013. Dyluniad gan ddisgybl o Frome, Gwlad yr Haf a chan disgybl o Dudley yng Nghanolbarth Gorllewinol Lloegr oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth eleni. Mae'r naill ddyluniad yn seiliedig ar Siôn Corn a'r llall ar Ddynion Eira. Llongyfarchiadau i'r disgyblion hyn – ond mae'n bwysig i ni gofio am y stampiau Cristnogol!**

**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:**
**Dydd Mercher 20 Rhagfyr ar gyfer post Ail Ddosbarth**
**Dydd Iau 21 Rhagfyr ar gyfer post Dosbarth Cyntaf**

---

**GWASANAETH NADOLIG CYLCH MEITHRIN MYRDDIN**
***yn***
**Y PRIORDY**
**Prynhawn Sul, 17 Rhagfyr 2017 am 2 o'r gloch**
***Croeso cynnes i bawb***



---



**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**

# HWYL DROS YR ŴYL!

# CWIS Y SAITH RHYFEDDOD – O'R AWYR!

***Beth am roi cynnig arni?   Croeso i chi anfon eich cynigion atom***
***Atebion yn ein rhifyn nesaf***
***Diolch i Gareth Gravell am y gwaith paratoi***



| | |
|---|---|
| ***1*** | |



| | |
|---|---|
| ***2*** | |



| | |
|---|---|
| ***3*** | |



| | |
|---|---|
| **4** | |



| | |
|---|---|
| **5** | |



| | |
|---|---|
| **6** | |



| | |
|---|---|
| **7** | |

# WATSHIA DI DY HUN!!




Un o'r caneuon sy'n cael eu rhyddhau mewn casgliad newydd o glasuron merched y 60au a'r 70au **(Rhannu'r Hen Gyfrinachau)** yw cân sydd wedi dod yn ffefryn ymysg gwrandawyr rhaglen **Tudur Owen** ar **Radio Cymru.**



Y gân yw *Watshia Di Dy Hun* a'r gantores – Meinir Lloyd.

Yn y 1960au roedd Meinir yn ferch ysgol yn Ysgol Brynhyfryd Rhuthun. Wedi canu dipyn o gerdd dant dechreuodd ganu caneuon pop wrth gyfeilio i'w hunan ar y delyn. Cyfansoddodd Meinir y gân gyda'i brawd-yng-nghyfraith Elwyn Wilson Jones i gynrychioli Sir Ddinbych mewn cystadleuaeth.



Meddai Meinir wrth *BBC Cymru Fyw*: "*Roedd hi'n hit fawr ar y pryd ond dw i ddim yn cofio os ddaru ni ennill y gystadleuaeth neu ddim!*"

Gwyddom yn dda yn y Priordy am ddoniau arbennig Meinir. Roedd hi'n wyneb cyfarwydd iawn ar raglenni Cymraeg cynnar fel *Disg a Dawn* ac roedd cyfres ei hun ganddi hefyd o'r enw *Mynd â'r Gân*. Ac rydym yn dal i gofio cyfraniad nodedig *Telynau Tywi* dan gyfarwyddyd Meinir.



Bu Peter hefyd, wrth gwrs, yn amlwg iawn ym myd adloniant Cymraeg dros y blynyddoedd.

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



# BANC BWYD CAERFYRDDIN

Carmarthen foodbank Banc Bwyd Caerfyrddin

**Annwyl Aelodau Capel Y Priordy**

Hoffwn ddiolch o galon i chi i gyd, ar ran Banc Bwyd Caerfyrddin, am eich haelioni yn cyfrannu'r bwyd o gasgliad eich Cwrdd Diolchgarwch ynghyd â rhodd o £20 i'r achos. Roedd y bwyd yn pwyso 43.62 cg/96 pwys sydd gyfystyr â rhyw 103 o brydau bwyd. Bydd yn werthfawr iawn i ni dros gyfnod y Nadolig.

Agorodd y Banc Bwyd hwn ym mis Ionawr 2011 ac ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf roeddem wedi rhoi pecynnau 3 diwrnod o fwyd i 453 o bobl. Mae'r angen wedi codi yn raddol ac erbyn diwedd eleni mae'r rhif hwnnw wedi codi i 2,108 sy'n cynnwys 606 o blant. Rydym yn cyfarfod yn gyson â phobl sydd ar incwm bach ansicr ac mae cynnydd mewn prisiau neu fil annisgwyl, colli rhywun annwyl neu fudd-dal sydd wedi'i ohirio'n gallu eu gadael yn brin o fwyd ac weithiau o gartref hefyd.

Dengys ymchwil ddiweddar, a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell, fod rhan fwyaf y teuluoedd a gyfeirir at fanc bwyd heb fwyta prydau cyson, weithiau am ddiwrnodau, tra oedd dros eu hanner yn methu fforddio gwres nac angenrheidiau eraill.

Diolch eto am eich cefnogaeth. Gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol gyda'n gilydd i deuluoedd ac unigolion sy'n llythrennol heb unman arall i droi iddo a gobeithio y byddwch yn gweld yn dda i'n cefnogi eto i'r dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

**Judy Pawluk**

***Rheolwraig Banc Bwyd Caerfyrddin***
***31/10/2017***

## CD PANTYCELYN



**Fel rhan o ddathliad tri chanmlwyddiant geni'r Perganiedydd, mae Cwmni Carrog yn rhyddhau casgliad o emynau William Williams Pantycelyn ar CD. Daw'r detholiad o rai o'r cymanfaoedd a recordiwyd ar hyd a lled y wlad ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr*.**

**Pris y CD yw £10. Gellir archebu copi / copïau drwy gysylltu â**
**Ceri Wyn Richards**
**Parrog Ltd**
**7 Westbourne Road**
**Caerdydd, CF14 2BP**
**☎O2920 619767 / ☎07779 241663**

# 'Agor y Gair'

***Cyfres o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin***

**Pryd?**
**Boreau Mercher, 24, 31 Ionawr 7 a 14 Chwefror 2018**

**Amser?**
**10.45 tan 11.45**

**Ble?**
**Canolfan 'Yr Atom', Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Arweinwyr**
**Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James**

**Tâl?**
**Nac oes**

**Croeso cynnes iawn i bawb?**
**OES!**

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***

**HWYL!**
**Plant ieuengaf yr Ysgol Sul yn cael hwyl wrth baratoi ar gyfer y Nadolig!**



**SESIWN AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN**
**24 Tachwedd 2017**




# Tudalen Ieuenctid@Priordy

Nadolig Llawen i bawb
Beti-Wyn x

## Pêl-rwyd a Phêl-droed MIC 2018

Cynhelir y twrnameintiau ar ddydd Sadwrn,
20 Ionawr 2018
yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin.
Croeso i blant Blwyddyn 3 i fyny ymuno.
Enwau i Luned ar lunedthomas@googlemail.com
**CYN** Y Nadolig.
Diolch




Parti Nadolig yr Ysgol Sul
Oed Cynradd
Prynhawn Llun,
18 Rhagfyr
4.30 tan 6.
Dewch i gael
hwyl, ac i flasu
Cŵn Poeth
Beti-Wyn!!


Tê Nadolig PIP
Prynhawn Iau, 21 Rhagfyr am 4.30
yng Nghaffi Pethau Da, Heol Mansel.
da
Dewch i ddiweddu'r tymor mewn steil!
Enwau i Beti-Wyn erbyn dydd Gwener, Rhagfyr 15
beti.wyn@icloud.com
Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £3
oddi wrth bob person.



**AELODAU NEWYDD**
***Gweler y Rhwydwaith***

# AROLWG FFYDD
# CRISTNOGAETH YN Y DEYRNAS UNEDIG
***Mesur y boblogaeth Gristnogol yn y Deyrnas Unedig***

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed am hanes a deilliannau'r Arolwg hwn yn y wasg neu ar y cyfryngau.  Bu cryn dipyn o sylw iddo yn ystod mis Medi. Rhoddir peth cefndir a chrynodeb isod

Cynhaliwyd yr ymchwil gan *Brierly Consultancy* a'i gyhoeddi yn *Church Statistics*. Cafwyd data ar gyfer 2005-2010 ynghyd â rhagolygon hyd at 2025.

**Credo yn Nuw - 2016**

**Cynhyrchodd pôl gan *You Gov* yn Rhagfyr 2016 y canlyniadau canlynol ar gyfer personau y gofynnwyd iddynt a oeddent yn credu yn Nuw neu rym ysbrydol uwch:**

| | |
|---|---|
| **Rwy'n credu yn Nuw neu rym ysbrydol uwch** | **28%** |
| | |
| **Dw i ddim yn credu naill ai yn Nuw neu mewn grym ysbrydol uwch** | **38%** |
| | |
| **Dw i'n credu mewn rhyw fath o rym ysbrydol yn unig** | **20%** |
| | |
| **Yn ansicr fy nghredo o ran y naill a'r llall o'r rhain** | **14%** |

## Rhai o Brif ganfyddiadau *Church Statistics*

Mae aelodaeth eglwysig yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng o 10.6 miliwn ym 1930 i 5.5 miliwn yn 2010, neu fel canran o'r boblogaeth, o tua 30% i 11.2%. Erbyn 2014, roedd wedi gostwng ymhellach i 5.4 miliwn (10.3%). Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd aelodaeth yn gostwng i 8.4% o'r boblogaeth erbyn 2025.

Yn Lloegr, amcangyfrifir y bydd aelodaeth yn gostwng i 2.53 miliwn (4.3% o'r boblogaeth) erbyn 2025.

Dros y cyfnod 2005-2010 gwelodd y prif enwadau Cristnogol, fel yr Anglicaniaid, y Catholigion a'r Presbyteriaid, i gyd ostyngiad mewn aelodaeth. Ar y llaw arall, gwelodd yr Uniongredwyr, y Pentecostiaid ac eglwysi newydd eraill (Efengylaidd a Charismataidd) gynnydd yn eu haelodaeth.

Mae aelodaeth eglwysig yn gostwng ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Ond yn Lloegr mae'r gostyngiad yn gymharol fach tra bo'r gostyngiad mwyaf, mae'n ymddangos, yn yr Alban.

## Presenoldeb Eglwysig yn y Deyrnas Unedig

**Mae *Brierley Consultancy* hefyd wedi cyhoeddi ystadegau am bresenoldeb eglwysig (mewn cyferbyniad ag aelodaeth) ar gyfer y cyfnod 1980-2015.**
**Y prif faterion yw:**

**Mae presenoldeb eglwysig wedi gostwng o 6,484,300 i 3,081,500 (sy'n cyfateb i ostyngiad o 11.8% i 5.0% yn y boblogaeth).**

**Lloegr sy gyda'r cyfartaledd isaf o'r boblogaeth yn mynychu eglwys yn 2015 (4.7%), ychydig yn is na Chymru (4.8%). Yn yr Alban, y cyfartaledd yw 8.9%**


# NID HENEBION YN UNIG!

***TYBED*** faint ohonoch sylwodd ar yr arddangosfa ddiddorol yn un o ffenestri *Canolfan Antîcs Caerfyrddin* yn Heol y Prior yn ddiweddar?




Yn ganolbwynt roedd Blwch Beibl teuluol yn dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif. Oddi tano, roedd hen Feibl Teuluol y Parchedig Peter Williams a'r tu mewn yr enw '*Alfred Richard Jones Morgan, Wern Corgan, Johnstown*'.





Maen nhw'n dweud hefyd mai'r lle mwyaf diogel i guddio pethau yw'r tu mewn i Feibl! Wel, yn y Beibl hwn mae sawl enghraifft o flodau cywasgedig mewn cyflwr perffaith sydd wedi cynnal eu siâp a'u lliw dros y blynyddoedd.





Yn ychwanegol yn yr arddangosfa, roedd beiblau llai, rhaglenni cymanfaoedd cerddorol o'r Allt-wen a Chapel Heol Awst, esboniadau a llyfrau emynau, blwch cenhadol a darllenfeydd.



Roedd y casgliad yn denu'r llygad a diolch i Nic Daniels, un o berchnogion y Ganolfan, am yr arddangosfa ac am roi pob help i ni.



***AR YR UN PRYD***, diolch nad henebion yn unig yw'r Beibl a'r Llyfrau Emynau ac ati yn Heol y Prior a'u bod ar waith -, mewn ffurf fwy diweddar yn ddigon naturiol - yn y Priordy ac addoldai eraill heb fod yn bell o'r *Ganolfan Antîcs*.



**CARDIAU NADOLIG**
**CYMORTH CRISTNOGOL**

***ar werth***
***yn y Priordy***
***Yn ystod mis Tachwedd***

## DRWS AGORED

***BORE IAU 8 Chwefror 2018 – FESTRI'R PRIORDY***
***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***
***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY**

**Nos Fercher 7 Mawrth 2018 am 7 yn y Festri**
***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd***
***os gwelwch yn dda***

**CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID YR OFALAETH**

**Nos Fercher 14 Mawrth 2018 am 7 yng Nghana**

## Rhestr Nadolig



Mae gen i goeden – mae gen i glychau,

mae gen i gelyn – mae gen i ganhwyllau.



Mae gen i gracyrs – mae gen i gardiau,

mae gen i gacen – mae gen i bob dim i’r dathliadau, gwisg Siôn Corn, gŵydd a goleuadau.

Ond mae un peth ar goll – nad yw gen i o gwbwl.

Does gen i ddim hanes anhygoel un babi a’r holl drwbwl

fu pan ddaeth i newid y ddaear a phob dim arni,

pan ddaeth i’n hachub ni;

stori Crist, stori’r geni, stori’n geni ni - dyw honna ddim gen i.



Elinor Wyn Reynolds

# CÂN FAIR FORWYN YN YSBRYDOLI CAROL

Mae'r hanes yn gyfarwydd i ni i gyd. Cafodd Mair wybod gan yr angel Gabriel fod Duw wedi'i dewis i fod yn fam i Iesu. Byddai hi'n beichiogi trwy'r Ysbryd Glân  Ar ôl derbyn y datguddiad dwyfol hwn, mae Mair yn cychwyn ar ei thaith i gartref ei pherthynas Elisabeth ym mynydd-dir Jwda. Roedd hithau yn ei henaint  hefyd wedi beichiogi. Wrth i'r ddwy wraig gyfarch ei gilydd,  mae Mair yn mynegi'i llawenydd a'i diolch drwy gân o fawl i Dduw.  Caiff y gân ei hadnabod fel Cân Fair Forwyn neu'r *Magnificat* . Daw'r enw *Magnificat* o linell gyntaf y testun yn Lladin *Magnificat anima mea Dominum".*  Mae'r gân i'w gweld yn Efengyl Luc yn unig yn y Beibl. Yn y gân mae Mair yn diolch am drugaredd Duw, ei nerth, ei ffyddlondeb, a'r modd mae'n troi gwerthoedd y byd wyneb i waered.





Mae' r Gân Fair Forwyn yn rhan gyffredin o addoli Cristnogol yn yr Eglwys yng Nghymru ac yn yr Eglwys Gatholig. Gellir ei hadrodd yn ogystal â'i chanu. Cafodd ei gosod i gerddoriaeth gan gyfansoddwyr fel Palestrina, **Bach** a Mozart.

Mae'r Gân yn parhau i ysbrydoli cerddorion yn ein dyddiau ni. Efallai bod rhai ohonoch yn gyfarwydd â'r Band Roc U2.  Wel, yn ôl Bono, prif ganwr ac awdur geiriau'r grŵp, Cân Fair Forwyn yn Efengyl Luc a ysbrydolodd *Magnificent* (2009), un o ganeuon y band ar yr albwm *No Line on the Horizon.*  Mae'n  gân boblogaidd iawn, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau.  Caiff ei chwarae, cyn dechrau pob gêm gartref y tîm hoci iâ New York Rangers yn Madison Square Garden yn Ninas Efrog Newydd.

U2

Clywodd Dyfnallt Morgan emyn Saesneg *Tell out my soul, the greatness of the Lord* o waith **Timothy Dudley-Smith** yn cael ei ganu ar y dôn *Woodlands*. Emynydd ac esgob wedi ymddeol gydag Eglwys Loegr yw Dudley-Smith, gŵr a aned ar 26 Rhagfyr 1926. Mae'r emyn yn seiliedig ar Gân Fair Forwyn.

Ysbrydolwyd **Morgan** gan yr emyn ac aeth ati i gyfansoddi emyn ei hunan - un gwreiddiol ac nid cyfieithiad. Ond yn wahanol i'r emyn Saesneg, mae Morgan yn glynu'n glòs at y gân yn y Beibl. Ganed Morgan gan mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon a buom yn dwyn i gof ei fywyd a'i waith yn ein Papur mewn rhifyn cynharach. A dyma gyfle i ni fyfyrio dros gynnwys ei emyn godidog ym mlwyddyn canmlwyddiant ei eni:



**O f'enaid, cân, mawrha yr Arglwydd Dduw**
**bydd lawen ynddo, dy Waredwr yw;**
**y nerthol Iôr wnaeth bethau mawr i Mair**
**am iddi gredu yn ei sanctaidd air.**

**Bendigaid ffrwyth ei chroth a ddaeth i'th ran,**
**mae ef yn gryf, er nad wyt ti ond gwan;**
**dy Frenin yw, ni raid it fod yn drist,**
**ac ni fydd diwedd ar deyrnasiad Crist.**

**O oes i oes, i'r rhai a'i hofnant ef;**
**trugaredd Duw sy'n ddinacâd o'r nef;**
**ei gadarn fraich sy'n dymchwel beilchion byd,**
**dyrchafu'r gwylaidd y mae ef o hyd.**

**Mae'n porthi'n hael newynog rai o'i stôr,**
**ond troi'r goludog wna heb ddim o'i ddôr;**
**a chofio mae ei addewidion mawr**
**i'n tadau ac i ninnau'r plant yn awr.**

**O f'enaid, cân, boed it yn ôl ei air,**
**Bydd gaeth i'r Arglwydd, gwyn dy fyd fel Mair;**
**Mawrha y Tad a'r Mab yn ddiwahân,**
**Ac arnat beunydd boed yr Ysbryd Glân.**

**WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL 2018**

**GWASANAETH DWYIEITHOG CYTÛN**

**Capel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst, Caerfyrddin**
**Dydd Sul 21 Ionawr 2018 – 5pm**
**Pregeth Gymraeg**
***gan***
**ALUN LENNY**




**Hefyd**
**Cyfarfodydd Bob Bore yn ystod yr**
**Wythnos Weddi am Undod Cristnogol fel a ganlyn:**

**Dydd Llun 22 Ionawr– 10.30am**
**Capel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst**

**Dydd Mawrth – Dydd Gwener 23-26 Ionawr – 10.30am**
**Capel Wesle (ger Boots)**

## BLYCHAU YN Y CYNTEDD

**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R**
**BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG**
**YN Y CYNTEDD**

## CRISTION

**Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydffurfiol ac Anglicanaidd. Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau. Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfrau, llythyron a chystadlaethau**

**Pris: £1.50 Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas**

## Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio
*yn cyflwyno...*

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### AGOR Y LLYFR – O'R DIWEDD



**M**ae Agor y Llyfr yn gynllun sy'n annog eglwysi a chapeli i gysylltu â'u hysgolion lleol er mwyn ymweld â'r ysgolion i gyflwyno storiau o'r Beibl ar ffurf drama syml. O'r diwedd mae Cyngor Eglwysi Caernarfon wedi llwyddo i gychwyn ar y cynllun ac mae criw wedi cychwyn drwy ymweld ag Ysgol y Gelli bob yn ail bore Mercher. Rydym wedi cyflwyno stori Galw'r Disgyblion a stori Sacheus ac mae'n ffordd effeithiol iawn o gyflwyno storïau'r Beibl i blant.

### Y GYMDEITHAS

Cafwyd noson yng nghwmni'r ffotograffydd Geraint Thomas ym mis Tachwedd. Mae ganddo Siop o'r enw 'Panorama' yn Stryd y Plas. Noson ddiffyr anghyffredin gan berson â dawn arbennig. Y ffordd orau i chwi gael syniad o gynnwys y noson yw mynd ar ei safwe
*://www.panorama-cymru.com*

### CYMORTH I FERCHED

Dychmygwch sut y byddai'n teimlo i orfod gadael eich cartref a phopeth sydd gennych er mwyn bod yn ddiogel rhag trais. Dyna brofiad nifer fawr o ferched sy'n dianc rhag trais domestig. Mae dynion hefyd yn dioddef o drais domestig ond mae'r rhan fwyaf sy'n cael eu heffeithio'n ferched. Mae mudiadau fel Cymorth i Ferched Bangor yn darparu cymorth a lloches drwy dai diogel a gweithwyr cefnogol. Ond maent yn gwerthfawrogi help i ddarparu nwyddau sylfaenol ac yn gofyn am gymorth pobl sy'n barod i roi nwyddau. Maent yn gofyn am ddillad merched a phlant o safon da, past dannedd, brws dannedd, sebon, siampwr, deunnydd hylendid merched, cadachau golchi a thyweli. Ar adegau fel y Nadolig maent yn derbyn nwyddau a all fod yn anrhegion i'r merched a'u plant. Rydym fel Eglwys yn dymuno cefnogi'r cynllun ymarferol hwn. Cawsom gyfle yn ystod Suliau 19 a 26 Tachwedd i dderbyn y nwyddau ar gyfer Cymorth i Ferched Bangor a fydd yn eu rhannu ymhlith merched lleol.



**Gareth Gravell…**



# JAC Y DO YN DATHLU 30AIN MLYNEDD

***AR SADWRN*** 14 Hydref cynhaliwyd parti pen-blwydd arbennig. Nid parti ar gyfer unigolyn ond parti dathlu 30 mlynedd o fodolaeth y band gwerin Jac y Do. Bûm yn aelod o'r band am 21 mlynedd a syndod mawr yw sylweddoli pa mor gyflym mae'r degawdau wedi llithro heibio, bron heb yn wybod i'r un ohonom.

Fe sefydlwyd y band yn ôl yn 1987 er mwyn cynnal twmpath yn Ysgol Gyfun Ystalyfera ac ers hynny mae'r gweddill yn hanes, i ddefnyddio ystrydeb! Cafwyd gwahoddiadau wedyn i chwarae mewn gwyliau , priodasau, nosweithiau llawen a gwahanol ddathliadau ledled Cymru. Bûm yn ffodus iawn i gael cyfleoedd gwych i deithio gyda Jac y Do yn ystod y cyfnod cyffrous hwn, gan ymweld â Sbaen, Canada, Yr Unol Daleithiau, Portiwgal, Iwerddon, Ffrainc, Llydaw, Brwsel a Hwngari, i enwi ond ychydig.



Rhyddhawyd y cyntaf o dair albwm ym 1994 yn cynnwys clasuron o gerddoriaeth gwerin Cymru ynghyd â chaneuon gwreiddiol gan aelodau'r band. A bu hyn wedyn yn gymorth i ychwanegu at boblogrwydd Jac y Do gan ehangu cynulleidfaoedd a chael chwarae ar lwyfannau mwy amrywiol.

Cyfnod hapus dros ben oedd y cyfnod y bûm yn aelod. Mae yna nifer yn Jac y Do sy'n ddigrifwyr naturiol a medraf ddweud yn gwbl onest mai chwerthin a mwynhau yw'r atgofion pennaf sydd gen i o fod yn eu cwmni. Gwae chi hefyd pe byddech yn digwydd gwneud neu ddweud rhywbeth anffodus, oherwydd byddai 'r digrifwyr hyn yn

tynnu'ch coes yn ddidrugaredd – yn y modd mwyaf "annwyl" wrth gwrs!! Fe ffurfiwyd cyfeillgarwch arbennig iawn ac fe allwn adrodd cannoedd o storïau am ein profiadau a'n gorchestion- ond efallai nad Papur Priordy yw'r lle i ddatgelu'r rhain!! Yn wir, rydym bellach yn ystyried ein hunain yn deulu mawr ac yn medru dibynnu ar ein cyfeillgarwch drwy bob tywydd.

Dros y blynyddoedd newidiodd aelodau Jac y Do. Rhai'n gadael oherwydd gwahanol resymau personol a rhai newydd yn ymuno i lenwi bwlch. Roedd y parti a gynhaliwyd yn Neuadd Llandybïe ar 14 Hydref 2017 nid yn unig yn noson i ddathlu'r garreg filltir arbennig hon ond hefyd yn gyfle i gwrdd â hen gyfeillion, rhai a fu'n ddieithr ers dros bymthemg mlynedd a mwy. Braf oedd rhannu llwyfan ar noson wych iawn gyda'r holl aelodau a fu, a'r rhai presennol yn un cynulliad mawr. Braf oedd gweld y neuadd dan ei sang hefyd gyda chyfeillion y band a fu mor gefnogol dros y blynyddoedd.



Erbyn hyn mae Jac y Do wedi dod yn rhyw fath o sefydliad a'r gwreiddiau o osodwyd ar y dechrau wedi tyfu ac ymestyn, er bod yr aelodau'n heneiddio ac y bydd terfyn ar fersiwn bresennol y band rywbryd yn y dyfodol! Y gobaith yw meithrin offerynwyr ifanc er mwyn cario'r batwn ymlaen, fel petai, a chadw diwylliant canu gwerin a dawnsio gwerin a'r cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.



Un peth cyn cloi sy'n dangos ymrwymiad y band i'r filltir sgwâr. Rhyw bum mlynedd yn ôl fe gafodd Jac y Do wahoddiad i fynd i chwarae yng Ngŵyl Dewi Sant gyda Chymdeithas Gymraeg Kuwait o bobman. Fel y gallwch ddychmygu daeth tonnau o gynnwrf drosom i gyd wrth feddwl am deithio i le mor egsotig a hynny yn costio nesa peth at ddim i ni!!. Dyma alw cyfarfod i drefnu'r swrnai fythgofiadwy - ond mewn wyth gair yn unig taflodd Mr Eifion Price ein hannwyl arweinydd, y trefniadau i'r pedwar

gwynt  wrth ddatgelu….”*Sori bois, dw i wedi trefnu noson ym Mhont-ïets”!!!!! ……..*”**Pont-ïets?”** gwaeddodd pawb yn unsain, fel llewod gwyllt wedi canfod ysglyfaeth. Roedd Mr Price yn lwcus i gyrraedd adre mewn un darn y noson honno!!

***DIOLCH I BAWB*** yn y band a gyfrannodd gymaint ac am gyfnod arbennig iawn a fydd yn aros gyda fi am byth.

## WYTHNOS YN WEDDILL!

## APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

Mae'r Apêl Teganau Nadolig wedi sicrhau bod plant lleol, na fyddai fel arall ond yn derbyn nifer fach iawn o anrhegion neu ddim anrhegion o gwbl, yn cael anrheg adeg y Nadolig.

Pa fath o anrhegion rydyn ni'n chwilio amdanynt?

**Rydyn ni'n chwilio am anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod 18 mis oed i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau**,

Byddem yn ddiolchgar pe baech chi ddim yn lapio'r anrhegion gan y byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd.  Mae croeso i chi gyfrannu papur lapio, sisyrnau a selotêp ar gyfer y gwirfoddolwyr.

**Byddwn yn casglu yn y Capel ar y Suliau - 19 a 26 Tachwedd a 3 a 10 Rhagfyr. Blychau yn y Capel.**

**A wnewch chi sicrhau bod y teganau yn rhai newydd os gwelwch yn dda a heb eu lapio. Awgrym o bris - £5 yr anrheg.**

**Mae un peth ychwanegol eleni, sef bod modd rhoi cyfraniadau ariannol I'r Apel er mwyn trefnu I brynu 'Bwydydd Nadolig' i'r plant a'r teuluoedd a fydd yn derbyn cymorth drwy Gynllun Gofal y Cyngor Sir.**

**Diolch**

**Beti-Wyn**

**DIOLCH YN FAWR**



**Diolch yn fawr iawn i Mair Baston a David am baratoi Torch yr Adfent ar ein cyfer unwaith eto eleni. Rydym yn gwerthfawrogi'r gymwynas yn fawr.**

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**



**Nos Lun, 4 Rhagfyr 2017 – Y Festri – 7**



**DR MENNA ELFYN**

***Cymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl, Talog a Foelcwan yn ymuno â ni)***

**Y TYST**



**Beth am dderbyn Y Tyst yn 2018?**
**50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**

| GWERTH EU DARLLEN | |
|---|---|
|  |  |
| Hefin Wyn<br>Cofiant i'r Comiwnydd a'r Cristion o'r Preselau<br>(Y Lolfa) | Alun Wyn Bevan<br>Atgofion o Fyd Chwaraeon yng Nghymru<br>(Carreg Gwalch) |

# NADOLIG: Y STORI

***I'w pherfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg i bobl Caerfyrddin yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg***

## Profiad Nadolig Unigryw

***Cerddoriaeth .. Asynnod Byw …. Fidio … Actorion Lleol***

## 11 – 16 Rhagfyr 2017

| | 11.00 | 12.00 | 2.00 | 3.00 | 4.00 | 5.00 | 5.30 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun 11.12.17 | Eng | Cym | Cym | Eng | | | |
| | | | | | | | |
| Mercher 13.12.17 | Cym | Eng | Eng | Cym | | Cym | Eng |
| | | | | | | | |
| Gwener 15.12.17 | Eng | Cym | Cym | Eng | | | |
| | | | | | | | |
| Sadwrn 16.12.17 | Cym | Eng | Eng | Cym | Eng | | |

**DYDD MAWRTH (12.12. 17)**
**a**
**DYDD IAU (14.12.17)**
***Blaenoriaeth i Ysgolion***

***MYNEDIAD AM DDIM***

***Os ydych yn gallu helpu mewn unrhyw fodd, er enghraifft fel rhan o'r tim cefnogi a stiwardio, cysylltwch â Tom T Defis, os gwelwch yn dda***

**☎: 01267 237257 Symudol ☎07929173352**
**e-bost: tdefis@cymorth-cristnogol.org**

## DYLETSWYDDAU

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Rhagfyr | | Ionawr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Gareth Gravell | Gareth Gravell | Sulwyn Thomas | Adrian Evans |

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 3 | | Ionawr | 7 | Mari Jones |
| | 10 | | | 14 | |
| | 17 | | | 21 | Margaret Lewis |
| | 24 | | | 29 | |
| | 31 | Beti Wyn James | | | |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 3 | Hwyr | Enid Wyn Jones a Jan Davies |
| Ionawr | 7 | Hwyr | Alison Parsons a Ffion Parsons |

### YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Tachwedd / Rhagfyr | Ein Gweinidog (Anrhegion Nadolig) |
| Ionawr / Chwefror | Janet Davies a Gloria Evans |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **3** | **Heledd Tomos** | **Ionawr** | **7** | **Elis Jones** |
| | **10** | | | **14** | |
| | **17** | **Alun Charles** | | **21** | **Catrin H Jones** |
| | **24** | **PhilipJones** | | **29** | **Carys Morgans** |
| | **31** | | | | |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **Catrin H Jones** | **Ionawr** | **Eirlys Jones** |

***BRAINT*** oedd cael croesawu pedwar aelod newydd yn ein Hoedfa Gymun ym mis Tachwedd, sef  Dewi Snelson, Trem y Coleg, tad Caleb, Gwilym ac Osian,  Gwenan Schiavone, Heol Llangynnwr, mam Lliwen Fflur a Gwern Ceian,  Eleri James, Cilgant Myrtwydd a Nigel Jenkins, Heol Sanclêr . Croeso cynnes iawn I'n plith yn y Priordy.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod, Eluned Jones, Glan Tywi, Catrin Davies Bancycapel a Dan O Evans, Hafan Tywi.  Meddyliwn hefyd am bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Gwestai ar **Heno ar S4C** un noson oedd Tudur Dylan Jones a fu'n lansio Cystadleuaeth Nadolig i Ysgolion Cynradd Cymru a hefyd yn sôn am ei



lyfr newydd *Siòn Corn a'r Anrheg Gorau Un* (Gomer 2017). Stori delynegol ar gyfer y Nadolig ar ffurf mydr ag odl gyda Siôn Corn yn brif gymeriad yw hon. Mae'r gyfrol yn cyfuno geiriau swynol Dylan â darluniau lliw hudolus yr artist Valériane Leblond. Mae'r tri chymeriad yn y stori Gymraeg wreiddiol hon yn blant go iawn, sef Miriam, Olwen a Gwydion, enwau teulu cyfarwydd iawn i ni yma yn y Priordy, wrth gwrs!  A hyfryd ar ddiwedd y rhaglen oedd gweld llun ar y sgrîn o Greta'n gwylio Taid ar y teledu!   Un arall a fu ar **Heno** yw Ffion Wilkins, merch Henry a Bronwen Wilkins, yn sôn am ei CD newydd a'i thaith ddiweddar. Yna, yn **O'r Senedd ar S4C** ac ar **Wales Today** ar **BBC Wales**, bu Mared Owen a disgyblion eraill yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ynghyd â Tim Hayes, Pennaeth y Chweched, yn sôn am y newidiadau yng Nghynllun Cyllido Myfyrwyr sydd â'u bryd ar fynd i brifysgol. Clywsom Meinir Lloyd ar raglen Aled Hughes ar **Radio Cymru** yn trafod  *Rhannu'r Hen Gyfrinachau* sef casgliad o leisiau merched byd canu pop a gwerin Cymru rhwng 1965 a 1975 pan oedd llawer iawn o grwpiau newydd Cymru yn ferched. A bu Sara Llwyd yn cymryd rhan yn  y rhaglen **Yn ôl mewn 5 Munu**d ar **Radio Cymru** pan fu'r cyflwynydd, Huw Stephens,  ar ymweliad â Siop y Pentan, Caerfyrddin, yn sgwrsio â staff a chwsmeriaid





Cafodd Heledd Jones gryn hwyl arni mewn cystadlaethau siarad cyhoeddus yn ddiweddar.  Daeth tîm Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ail yn rownd derfynol Cystadleuaeth y Rotari yng Nghaerdydd a dyfarnwyd Heledd yn gynigydd gorau'r gystadleuaeth. Ac yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg y Ffermwyr Ifainc (Adran Ganol) a gynhaliwyd yn Nantgaredig Tîm Clwb Dyffryn Tywi ddaeth yn

gyntaf a dyfarnwyd  Heledd yn siaradwraig orau'r gystadleuaeth. Yna, yn yr Adran Iau, daeth Clwb Dyffryn Tywi'n drydydd a Rhiannon Jones oedd y Cadeirydd.  Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy chwaer!

Mae'n gyfnod prysur i Elin Llwyd.  Bu'n rhan o **Tiger Bay: Y Sioe Gerdd** a gynhaliwyd yn ystod y mis yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac yn ôl pob hanes, bu'n sioe arbennig o lwyddiannus!



***BU NIFER*** yn ein capel yn cymryd rhan yng Ngŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro a gynhaliwyd yn Neuadd Ysgol Bro Teifi, Llandysul. Daeth Mared Owen yn drydydd yn yr Unawd Alaw Werin, Parti Alaw Werin Bro Myrddin (Mared Owen, Catrin Owen, Lucy Jones, Sara Llwyd, Lisa Davies) a Chôr Cerdd Dant Bro Myrddin (Catrin Owen, Mared Owen, Lisa Davies, Lucy Jones, Sara Llwyd) yn gyntaf. Ymhlith y cystadleuwyr eraill roedd Côr Cerdd Dant Lleisiau Tywi (Mared Owen, Luned Voyle, Sara Llwyd, Catrin Mair Jones, Alwen Owen, Siân Axford) a Chôr Tonic (Jan Davies, Catrin Heledd, Eleri James, Jaquie Saywell, Eirlys Davies). Llongyfarchiadau gwresog iddynt i gyd.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr  i'n**
**Gweinidog ☎ 01267 237696   neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn eich cydymdeimlad cywir â Delyth a Nick Davies a Jac a Mali, Heol y Prior, ar golli mam Nick ar 16 Tachwedd 2017, sef Ann Evans, Llys y Gors, Heol y Gwyddau, Caerfyrddin.  Cofiwn am y teulu yn eu hiraeth a'u colled am fam, mam-yng-nghyfraith a mam-gu annwyl iawn.**

## DIOLCH YN FAWR



Diolch i Beti-Wyn a Philip a Gwynfor Davies am y lluniau'r mis hwn



**Dymuniadau da i bob un o'n darllenwyr dros yr Ŵyl a hefyd I'n cyfeillion yn Salem, Caernarfon, gan ddiolch iddynt am anfon newyddion atom o fis i fis drwy  Carys Morgans**



# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **3** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog *Casgliad Rhydd at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg* | **Cymun** |
| | **10** | *Bore*<br>*Pnawn*<br>*Hwyr* | Ymarfer I'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 y bore ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig<br>Gwasanaeth Nadolig y Priordy am 3.30. Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn, *Casgliad at yr Ysgol Sul Casgliad olaf y flwyddyn.*<br>Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Heol Awst am 7.30 | |
| | **17** | *Bore*<br>*Hwyr* | Oedfa Nadolig yr Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog<br>Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6 | |
| | **24** | *Bore* | Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog | |
| | **31** | *Bore* | Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 10 gyda'n Gweinidog | |

**BORE NADOLIG - OEDFA DEULU YN Y PRIORDY**
**AM 9 Y BORE GYDA'N GWEINIDOG A'R BOBL IFAINC**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **7** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog | **Cymun** |
| | **14** | *Bore* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog | |
| | **21** | *Bore*<br>*P'nawn*<br>*Hwyr* | Dr Hefin Jones<br>Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda'r Dr Hefin Jones<br>Oedfa Cytûn yng Nghapel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol | |
| | **28** | *Bore* | Ein Gweinidog | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**<br>**Y – Ymarfer ar gyer y Gwasanaeth Nadolig GN – Gwasanaeth Nadolig** | | | | | | | | |
| **Rhagfyr** | | | | | **Ionawr** | | | |
| **3** | **10** | **17** | **24** | **31** | **7** | **14** | **21** | **28** |
| **Y** | **Y – 10**<br>**GN -3.30** | **-** | **-** | **-** | | **CP** | **✓**<br>**PIP** | **✓** |